
# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED – RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 09
GORFFENNAF - MEDI 2025 - RHIFYN PYLLAU PADLO A PHAD SBLASIO




[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf]

**Cynnwys:**


- Tudalen 2 - Uchafbwyntiau Haf 2025
- Tudalen 3 – Cymorth gan y Cyngor
- Tudalen 4 - Recriwtio Achubwyr Bywydau a Deilliannau Hyfforddiant
- Tudalen 5 - Pwll Padlo Treorci
- Tudalen 6 - Pwll Gerddi Lee, Penrhiwceiber
- Tudalen 7 - Pad Sblasio Aquadare, Aberdâr
- Tudalen 8 - Pwll Butchers, Ynys-y-bwl
- Tudalen 9 - Pwll Padlo Gwernifor, Aberpennar
- Tudalen 10 - Manylion Cyswllt Carfan Datblygu'r Gymuned

# Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Pyllau Padlo a Phad Sblasio

Darparodd y pyllau padlo a'r pad sblasio cymunedol fynediad am ddim at gyfleusterau, yn ogystal ag achlysuron a gweithgareddau eraill am ddim megis ffrwythau, bwyd, adloniant a gemau am ddim yn ystod gwyliau'r haf, 2025

- Pwll Padlo Treorci
- Pwll Gerddi Lee, Penrhiwceiber
- Pwll Padlo Gwernifor, Aberpennar
- Pwll Butchers, Ynys-y-bwl
- Pad Sblasio Aquadare,  Aberdâr

## Uchafbwyntiau Haf 2025

**Ymgysylltu â'r Gymuned ac Ymweliadau**
Cafodd dros 10,126 o ymweliadau eu cofnodi rhwng pum pwll a phad sblasio sydd dan ofal y gymuned, gan dynnu sylw at eu poblogrwydd.

**Cymorth Gwirfoddolwyr ac Achubwyr Bywydau**
Cafodd **22 o achubwyr bywydau** eu cyflogi ac ymgysylltwyd â **62 o wirfoddolwyr** yn rhan o'r fenter yma er mwyn sicrhau gweithredu diogel a di-dor.

**Codi Arian ac Effaith Gymdeithasol**
O ganlyniad i ymdrechion codi arian gan bob grŵp, codwyd dros £89,238, a arweiniodd at fynediad a gweithgareddau am ddim, gan gynhyrchu adenillion cymdeithasol o fuddsoddi ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd, sef £37.07 o Werth Cymdeithasol.

**Lleoliadau Pyllau a Lles y Gymuned**
Roedd y pedwar pwll a'r pad sblasio wedi gwella lles y gymuned gyda mannau hamdden diogel yn ystod yr haf.






# Cymorth gan y Cyngor

**Diogelwch a Gwaith Cynnal a Chadw**

- Aeth y Garfan Hamdden ati i sicrhau diogelwch yn y pwll drwy recriwtio a hyfforddi achubwyr bywydau, profi'r dŵr, a gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd. Hefyd, cymeradwywyd gwaith atgyweirio a thrafodwyd cytundebau ar gyfer defnyddio dŵr er mwyn cynnal gweithrediadau'r cyfleusterau.


**Rheoli Cyfleusterau**

- Aeth Carfan Eiddo'r Cyngor ati i reoli gwaith adnewyddu prydlesi a diweddaru'r Gweithdrefnau Gweithredu Diogel yn unol â chanllawiau gan y Garfan Hamdden.

**Cydweithio Cymunedol**

- Aeth Carfan Datblygu'r Gymuned ati i gydlynu cyfarfodydd cynllunio a rhoddodd gymorth i'r grwpiau i fanteisio ar gyllid ar gyfer gweithgareddau.

# Hyfforddiant Achubwyr Bywydau



**Hyfforddiant Achubwyr Bywydau Cynhwysfawr**

- Trwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi, enillodd achubwyr bywydau gymwysterau a sgiliau hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch a goruchwylio'r pwll nofio. **Cwblhaodd 17 o bobl hyfforddiant mewn perthynas â phwll nofio yn 2025.**

**Strategaeth Cynllunio'r Genhedlaeth Nesaf o Staff**

- Ariannodd Pwll Gerddi Lee y Cymhwyster Achub Bywyd Cenedlaethol (NPLQ) ar gyfer gwirfoddolwyr a ad-dalodd y gost drwy weithio sifftiau, gan sicrhau argaeledd o ran achubwyr bywydau yn y dyfodol.

**Cyfleoedd Datblygu Gyrfa**

- Cefnogodd y rhaglen dwf gyrfaoedd, gyda rhai achubwyr bywydau'n symud i swyddi mewn canolfannau hamdden, gan ymgysylltu â'r gymuned. **Cafodd 22 o Achubwyr Bywydau eu cyflogi er mwyn cynorthwyo â gweithgareddau pwll padlo yn 2025.**

**Pwll Padlo Treorci - Cyfeillion Parc Treorci**

https://treorchy.org.uk/

E-bost treorchypark@gmail.com

Ffôn: 07865 354402








### Gwaith Ailwampio a Gwelliannau

- Roedd gwaith uwchraddio sylweddol wedi gwella cylchrediad dŵr a strwythur y pwll padlo yn 2025.

### Ymgysylltu ag Ymwelwyr

- Roedd y pwll wedi croesawu 838 o ymwelwyr, gan gynnwys plant ac oedolion, gyda nifer o weithgareddau llawn hwyl yn cael eu cynnal drwy gydol yr haf, gan gynnwys "Sesiynau Tawel ar gyfer Unigolion ag ADY", a gafodd eu gwerthfawrogi gan deuluoedd.

### Achubwyr Bywydau Gwirfoddol

- Roedd pum gwirfoddolwr ifanc newydd wedi hyfforddi a phasio arholiadau achubwr bywydau, gan helpu i sicrhau diogelwch yn y pwll.

### Cymorth gan y Gymuned

- Roedd ymgyrch GoFundMe wedi codi dros £5,095 mewn 24 awr er mwyn trwsio pwmp, gan ddangos cefnogaeth leol gref. Diolch hefyd i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd a Chyngor Rhondda Cynon Taf am gyllid ychwanegol.

"Mae fy mhlant wedi cael amser gwych gyda chi drwy gydol yr haf, tan heddiw yn y glaw☺"

"Diolch i bawb am roi o'ch amser sy'n golygu bod modd i'n plant wneud atgofion y byddan nhw'n eu cofio am byth" (rhiant)





# Pwll Gerddi Lee - Penrhiwceiber

**Ffôn: 07775 792543**
**https://www.leegardenspool.co.uk/contact-us**







**Llwyddiant Tymor yr Haf**

- Roedd Pwll Gerddi Lee wedi denu bron i 5000 o ymweliadau mewn 31 diwrnod yn ystod tymor llwyddiannus haf 2025, gyda 794 o blant a 540 o oedolion yn mynychu.

**Hyfforddi a Staffio Achubwyr Bywydau**

- Roedd chwe achubwr bywydau wedi'u hyfforddi yn unol â safonau'r Cymhwyster Achub Bywyd Cenedlaethol (NPLQ) wedi cymryd lle gwirfoddolwyr, a hynny gyda chymorth gan staff ymroddedig a gwasanaethau'r gyflogres. Rydyn ni'n parhau i dalu am hyfforddiant achubwyr bywydau gwirfoddol ac rydyn ni wrth ein boddau yn eu gweld yn ffynnu. Diolch enfawr i Megan, Morgan, Ella, Cody, Lowri a Carter am fod yn achubwyr bywydau yn ystod gwyliau'r haf.

**Hygyrchedd a Chynhwysiant**

- Gwellwyd hygyrchedd y pwll gyda rampiau a chadeiriau olwyn ar gyfer y dŵr, gan feithrin amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i'r holl ymwelwyr.

**Cymorth gan y Gymuned ac Arian**

- Roedd arian gan sefydliadau lleol megis Cyngor RhCT, Interlink a Chronfa Eglwysi Cymru, wedi talu am gostau gweithredol, gan alluogi gwaith cynnal a chadw a rhaglenni cymunedol amrywiol.

Roedd 24 o wirfoddolwyr a 7 aelod o staff wedi darparu bwyd a diodydd, ac amgylchedd diogel. Diolch hefyd i Eglwys Santes Winifred (Penrhiwceiber) am drefnu'r bwyd ar gyfer y Gemau Stryd a 'Fit & Fed'



## Pad Sblasio Aquadare - Cyfeillion Parc Aberdâr

**Chwarae Awyr Agored Cynhwysol**

- Mae Pad Sblasio Aquadare yn cynnig man chwarae hygyrch a deinamig gyda sesiynau tawel ar gyfer anghenion amrywiol plant.

**Cymorth y Gymuned a Gwirfoddolwyr**

- Mae'r pad sblasio yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr a chysylltiadau cymunedol cryf, gydag achlysuron codi arian drwy gydol y flwyddyn yn sicrhau cynaliadwyedd gweithredol.

**Mentrau Cynaliadwyedd**

- Roedd 2025 wedi nodi'r flwyddyn gyntaf yn defnyddio paneli solar, gan leihau effaith amgylcheddol y pad sblasio a chyfrannu at nodau Sero Net.

**Deng Mlynedd o Lwyddiant**

- Wrth ddathlu deng mlynedd o ymgysylltu â'r gymuned, mae'r pad sblasio yn cael ei ganmol am ei hwyl, ei ddiogelwch a'i addasrwydd o ran tywydd.

**Roedd 9 gwirfoddolwr wedi helpu i redeg a chefnogi'r pad sblasio - DIOLCH YN FAWR**

**Rydyn ni nawr yn bwriadu recriwtio rhagor o wirfoddolwyr ar gyfer 2026. Os oes gyda chi ddiddordeb, cysylltwch â ni drwy e-bostio foaberdare@gmail.com neu ffoniwch 07789 212146**

**https://www.facebook.com/AberdareParkWales/**

'Diolch i bawb am eich amser ac am wirfoddoli'

'Gwelais i faint o hwyl yr oedd y plant yn ei gael pan oeddwn i yna heddiw. Perffaith ar gyfer y tywydd yma'



# Pwll Butchers - Neges Dathlu 10 Mlynedd









## Carreg Filltir Rheolaeth gan y Gymuned

- Roedd Pwll Butchers wedi dathlu 10 mlynedd o reolaeth lwyddiannus gan y gymuned, gan ddangos ymroddiad a chydnerthedd lleol cryf.

## Cymorth a Gweithgareddau i Ymwelwyr

- Roedd y pwll wedi croesawu 1,751 o ymweliadau dros wyliau'r haf, a hynny gyda chymorth gan achubwyr bywydau, gwirfoddolwyr ac achlysuron ymgysylltu â phlant.

## Cyllid a Phartneriaethau

- Roedd cyllid wedi'i sicrhau drwy grantiau a sefydliadau lleol, a arweiniodd at weithredu a chynnal prosiectau cymunedol ym Mhwll Butchers.

## Pwysigrwydd ac Anghenion o ran Gwirfoddolwyr yn y Dyfodol

- Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol o ran gweithredu'r pwll, gyda galwadau brys am ragor o gymorth er mwyn cynnal y cyfleuster yn hirdymor. **Diolch o waelod calon i bawb sydd wedi ein cefnogi ni yn 2025.**

## YN GALW AR WIRFODDOLWYR AR GYFER 2026!

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn Pwll Butchers, eu hymdrechion nhw sy'n cadw'r cyfleuster cymunedol poblogaidd yma'n fyw.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen rhagor o bobl i wirfoddoli ar frys. Heb waith cymunedol ehangach, mae dyfodol y pwll yn y fantol. Ystyriwch roi ychydig o'ch amser. Gyda'n gilydd, mae modd i ni sicrhau bod Pwll Butchers yn parhau i fod ar agor am ragor o flynyddoedd i ddod.

E-bostiwch: Hayley@yrp.wales am ragor o wybodaeth.
https://www.ynysybwlvision.wales/butchers-paddling-pool












# Pwll Gwernifor - Aberpennar - Grŵp Gweithredu Amgylcheddol Darren-las





**Llwyddiant Tymor yr Haf**

- Roedd Pwll Gwernifor wedi croesawu dros 2,515 o ymwelwyr dros chwe wythnos gwyliau'r haf yn 2025.

**Sesiynau Tawel Cynhwysol**

- Roedd sesiynau tawel wythnosol bob dydd Iau er mwyn cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Cymorth Cymunedol a Chyllid**

- Roedd cyllid wedi'i sicrhau er mwyn helpu i fynd i'r afael â chostau atgyweirio a chynnal a chadw.

**Cydnerthedd a Diogelwch**

- Roedd y garfan wedi ymateb yn gyflym i unrhyw heriau ac roedd achubwyr bywydau wedi sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer ymwelwyr.






# Cofiwch fod modd i chi gysylltu ag unrhyw aelod o Garfan Datblygu'r Gymuned ☺

**Cysylltwch â'r garfan**

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

**Cysylltwch â'r garfan**

**Carfan Canolfan Cydnerthedd y Gymuned a'r Rhwydweithiau Cymdogaeth**

**Cysylltwch â'r garfan**

**Carfan Cymorth Cyllid ac Adnoddau**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
RHONDDA CYNON TAF
BALCH O'R MISLIF | PERIOD PROUD
#BalchOrMislif llyw.cymru/balchormislif
#PeriodProudWales gov.wales/periodproud
Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative
Oed-Gyfeillgar Age-Friendly
Rhondda Cynon Taf
SUSTAINABLE FOOD places RCT BRONZE
SUSTAINABLE FOOD places
Croeso Welcome
Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU